



Ein cyf/Our ref: MA/JJ/2228/20

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

17 Gorffennaf 2020

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Gorffennaf ynghylch y rheoliadau drafft yr wyf yn bwriadu eu gosod gerbron y Senedd mewn perthynas â'r cofrestr etholiadol 2020. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith craffu arfaethedig ar y rheoliadau, rwyf wedi ateb y cwestiynau a godwyd yn eich llythyr isod.

- (i) Beth yw eich asesiad o'r risgiau posibl i'r trefniadau etholiadol ar gyfer etholiadau mis Mai y flwyddyn nesaf os na fydd y swyddogion cofrestru etholiadol yn cyhoeddi'r cofrestrau tan 1 Chwefror 2021?

Nid wyf yn ystyried bod unrhyw risgiau i drefniadau etholiadol ar gyfer 2021 yn codi'n benodol o ymestyn y dyddiad terfynnol ar gyfer cyhoeddi'r cofrestrau. Mae swyddogion cofrestru etholiadol a'u staff yn brofiadol yn cyflawni'r dasg flynyddol hon ac rwy'n hyderus yn eu gallu i lunio cofrestrau cywir cyn etholiad mis Mai. Rydym wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol a Bwrdd Cydgysylltu Etholiadol Cymru ac ni chodwyd unrhyw risgiau ganddynt. Rydym hefyd yn deall y bydd swyddogion cofrestru etholiadol yn ceisio bodloni'r dyddiad cyhoeddi 1 Rhagfyr fel arfer ond yn croesawu'r hyblygrwydd ychwanegol y mae'r Rheoliadau hyn yn ei ddarparu i sicrhau y gall swyddogion cofrestru etholiadol gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod y gofrestr mor gyflawn a chywir â phosibl.

- (ii) Pa ymgynghoriadau yr ydych chi wedi'u gwneud mewn perthynas â'r rheoliadau arfaethedig?

The Electoral Commission was consulted on this in line with Sections 7(1) and (2)(e) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000. The Electoral Commission did not recommend any changes. The Wales Electoral Co-ordination Board were consulted and agreed the additional flexibility provided by these regulations would be welcomed in the event that the current public health arrangements could prevent the completion of the 2020 annual canvass in the usual timeframe.

Ymgynghorwyd â'r Comisiwn Etholiadol ar hyn yn unol ag adrannau 7(1) a (2)(e) o Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Nid oedd y Comisiwn Etholiadol yn argymhell unrhyw newidiadau. Ymgynghorwyd â Bwrdd Cydgysylltu Etholiadol Cymru a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

chytunwyd y byddai'r hyblygrwydd ychwanegol a ddarperir gan y Rheoliadau hyn yn cael ei groesawu pe bai'r trefniadau iechyd cyhoeddus presennol yn gallu atal cwblhau'r broses ganfasio flynyddol 2020 yn yr amser arferol.

- (iii) Pa ddyddiadau cyhoeddi eraill wnaethoch chi ystyried eu pennu a pham yr ystyriwyd mai 1 Chwefror 2021 oedd yr opsiwn gorau?

Fel arfer, cynhelir y cyfnod canfasiad blynyddol o 1 Gorffennaf i 1 Rhagfyr, ac fe'i hysgogir gan ofyniad i swyddogion cofrestru etholiadol gyhoeddi cofrestr etholwyr ddiwygiedig ar gyfer eu hardal erbyn 1 Rhagfyr. Yr unig eithriad i hyn yw pan gynhelir etholiad yn eu hardal rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr, yna caiff y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r gofrestr etholiadol ddiwygiedig ei ymestyn yn awtomatig i 1 Chwefror y flwyddyn ganlynol o dan adran 13(1A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Mae hyn yn rhoi dau fis ychwanegol i swyddogion cofrestru etholiadol gwblhau eu canfasiad a llunio eu cofrestr etholwyr ddiwygiedig.

1 February 2021 was chosen as appropriate date for publication for the purposes of these regulations to ensure an up to date register is published in advance of the scheduled May 2021 elections, but is also already a deadline which EROs are familiar with and have had to work to in other circumstances.

Cafodd 1 Chwefror 2021 ei ddewis fel dyddiad cyhoeddi priodol at ddibenion y rheoliadau hyn er mwyn sicrhau bod cofrestr gyfredol yn cael ei chyhoeddi cyn yr etholiadau a drefnwyd ar gyfer 2021 mai, ond mae eisoes yn ddyddiad cau y mae'r swyddogion cofrestru etholiadol yn gyfarwydd âg ef ac wedi gorfod gweithio iddo o dan amgylchiadau eraill. Mae hwn yn gyson â rheoliadau tebyg sy'n cael eu gwneud gan Lywodraethau'r DU a'r Alban.

Gobeithiaf bod y llythyr hwn yn rhoi sylw digonol i'r ymholiadau a godwyd gennych. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y rhesymeg a'r bwriadau polisi sy'n sail i'r ddeddfwriaeth hon yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau. Edrychaf ymlaen at dderbyn sylwadau'r Pwyllgor maes o law.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government